

Recriwtio Unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon, Prifysgol De Cymru

Mehefin 2022

Ein Diben

Diben y cynllun hwn yw amlinellu dull gweithredu ar gyfer **recriwtio unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol** i raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ym Mhrifysgol De Cymru. Mae'n anelu at ddarparu amrywiaeth o weithgaredd o ansawdd uchel wedi'i dargedu a fydd yn ysgogi ymholiadau a diddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â'r cwrs ym mis Medi 2023.

Yn y pen draw, rydym yn anelu at ehangu ein hapêl fel prifysgol y bydd myfyrwyr o gefndiroedd, diwylliannau a hunaniaeth amrywiol yn ei dewis, ac annog cynnydd mewn ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn:

- Nodi a mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd i gefnogi recriwtio
- Datblygu a darparu cynnwys cyfoethog, atyniadol ac amrywiol i ymgeiswyr
- Gweithgareddau allgymorth wedi'u targedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Casglu tystiolaeth gan fyfyrwyr cynrychioliadol er mwyn codi dyheadau
- Gwellu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i fyfyrwyr
- Sicrhau amrywiaeth drwy'r broses dderbyn

Ein Dull Gweithredu


Mae ein dull ar gyfer denu ceisiadau o ansawdd uchel o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei weithredu gan ein Hadran Myfyrwyr y Dyfodol ar y cyd â chydweithwyr academiaidd.

Mae'r gweithgaredd wedi'i dargedu a'i deilwra i weddu i anghenion grwpiau penodol ac fe'i darperir yn bennaf drwy gysylltu ag ysgolion a cholegau ond fe'i ategir ymhellach gan negeseuon a thystiolaeth benodol ar draws cyfryngau a sianelau niferus a ddyluniwyd i ysbrydoli demograffeg ehangach, trawsnewid canfyddiadau, a gwneud astudio yn y brifysgol yn fwy deniadol.

Drwy ddefnyddio'r fframwaith y cyfeirir ato yn ein dull sefydliadol (Ffigur 1.0), nodir y camau unigol yn nhaith ymgeisydd, ac mae'r rhyngweithio wedi'i fapio i'n galluogi i ddeall eu profiad, eu disgwiliadau a'r dylanwadau ar eu penderfyniadau. Mae hyn yn ein galluogi i nodi'r heriau ar hyd y daith ac ail-ddylunio profiadau a gweithgaredd, gan gynnwys defnyddio llysgenhadon myfyrwyr, eiriolwyr cymunedol a phroffesiynol mewn print wedi'i deilwra, gweithgaredd ar-lein, sgysiau byw, gwaith allgymorth, a digwyddiadau recriwtio a dewis.

Ffigur 1.0: Ein Dull o Recriwtio Myfyrwyr

Twndis / Piblinell Recriwtio



Camau Recriwtio a Gweithgaredd Cysylltiedig

Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu

Y gynulleidfa hon yw unrhyw un sy'n gweld ein gwaith hysbysebu a lle bo'r gynulleidfa wedi rhyngweithio â ni:

Sbardunau allweddol: Hysbysebu digidol, ymgyrchoedd post uniongyrchol a gwaith allgymorth mewn ysgolion a cholegau.

Ystyried a Gwerthuso

Mae'r gynulleidfa hon yn ystyried astudio mewn prifysgol ac yn gwerthuso PDC fel dewis hyfyw.

Sbardunau allweddol: Diwrnodau Agored, gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiadau, gohebiaeth â'r ymholwr, e-byst, galwadau ffôn, Gwasanaeth Negeseuon Byr, a sgysiau byw.

Ymgeisio, Cynnig, Penderfyniad

Mae'r gynulleidfa hon wedi ymgeisio i astudio yn PDC ac wedi cael cynnig lle ac yn penderfynu a ydynt am ei dderbyn.

Sbardunau allweddol: Cais, cyfweiliad, digwyddiad dewis, cynnig, manau cyswllt ymgeiswyr, e-byst, galwadau ffôn, Gwasanaeth Negeseuon Byr, a sgysiau byw.

Recriwtio Unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: Cynllun Gweithredu (Rhan 1)

Gweithgaredd	Disgrifiad	Cam Recriwtio
Nodi heriau a chyfleoedd i gefnogi recriwtio.	Cynnal adolygiad o lenyddiaeth i nodi'r gwaith ymchwil ar effaith cynyddu nifer yr unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n cael eu recriwtio a'r dystiolaeth o'r effaith honno. Cynnal arolwg ac ymgynghori â'r myfyrwyr presennol, athrawon, a mentoriaid cymunedol ynghylch eu canfyddiadau a'r rhwystrau i gyfranogiad unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn Addysg Uwch.	Trosfwaol
Nodi negeseuon allweddol ar gyfer y gynulleidfa darged.	Addasu a diweddarau negeseuon hyrwyddo allweddol i gynnwys y canfyddiadau o'r gweithgaredd uchod ac i ystyried canfyddiadau gwael mewn perthynas â chyfranogiad unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn Addysg Uwch.	Trosfwaol
Datblygu a darparu cynnwys cyfoethog, deniadol ac amrywiol.	Meithrin asedau cynnwys y gellir eu defnyddio i arddangos amrywiaeth a chynhwysiant ein cymuned o fyfyrwyr ac sy'n cynrychioli'r ddemograffeg ehangach.	Trosfwaol
Casglu tystiolaeth gynrychioladol gan fyfyrwyr i godi dyheadau.	Nodi a chasglu achosion astudiaeth gan fyfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a phartneriaid ysgolion a llunio proffil ar draws yr holl ohebiaeth marchnata.	Trosfwaol

Eiriolaeth broffesiynol a recriwtio llysgenhadon myfyrwyr.	Recriwtio llysgenhadon myfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol fel modelau rôl i'w dilyn a chynyddu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau recriwtio cysylltiedig. Cynyddu cyfranogiad partneriaid ysgolion a'r Cylch Trefol o gefndiroedd amrywiol mewn gweithgaredd recriwtio. Gweithio gyda phartneriaid Cyngor y Gweithlu Addysg ar ddulliau o hyrwyddo recriwtio.	Trosfwaol
Gweithgareddau allgymorth wedi'u targedu at y rheini heb gynrychiolaeth ddigonol.	Darparu rhaglen wedi'i targedu o weithgaredd codi proffil sydd wedi'i hanelu at ddarpar fyfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn ysgolion a cholegau (ewch i Atodiad 1.0 i gael rhagor o fanylion). Gweithio gyda phartneriaid Cyngor y Gweithlu Addysg ar weithgareddau allgymorth sydd wedi'u targedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu

Recriwtio unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: Cynllun Gweithredu (Rhan 2)

Gweithgaredd	Disgrifiad	Cam Recriwtio	Diweddariadau
Darparu digwyddiadau ymgysylltiad â rhanddeiliaid Addysgwyr Cymru.	Gweithio gydag ysgolion partner a Chyngor y Gweithlu Addysg ar raglen o ddigwyddiadau parhaus wedi'i chynllunio i hyrwyddo addysgu fel dewis gyrfa gyda phlant ysgol gynradd.	Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu	Mae cyllid wedi'i ddyrannu i ryddhau'r mentor cymunedol o'r ysgol i gefnogi'r digwyddiadau hyn. Cyfanswm o 8 niwrnod = £2,400.
Diweddarau gwaith creadigol hysbysebu digidol a delweddau'r wefan	Diweddarau'r gwaith creadigol hysbysebu digidol a delweddau ar dudalennau'r cwrs ar y wefan i sicrhau eu bod yn cynrychioli'r ddemograffeg ehangach.	Ystyried a Gwerthuso	Mae cam cyntaf y gweithgaredd hwn wedi ei roi ar waith ac mae'r delweddau ar y wefan wedi'u diweddarau. Mae gweithgareddau pellach yn parhau.
Hysbysebu a hyrwyddo ysgogiadau i ymholwyr i'w hannog i ymgeisio.	Hyrwyddo ysgogiadau'n rhagweithiol, fel bwrsariaeth Llywodraeth Cymru i bobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (i'w gadarnhau) a mentrau cysylltiedig y brifysgol ar draws nifer o fathau o ohebiaeth a manau cyswllt.	Ystyried a Gwerthuso	Yn disgwyl am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

Gwella gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i fyfyrwyr.	Adolygu a gwella'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr lleiafrifol ethnig ar bob cam o'r broses dderbyn o'r pwynt ymgeisio a thu hwnt.	Ymgeisio, Cynnig, Penderfyniad	Parhaus.
Sicrhau cynrychiolaeth amrywiol drwy'r broses dderbyn.	Meithrin rhwydwaith o bartneriaid du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig gyda'r bwriad o sicrhau bod cynrychiolaeth amrywiol ar bob panel cyfweld Addysg Gychwynnol i Athrawon.	Ymgeisio, Cynnig, Penderfyniad	Mae £600 (4 x 0.5 diwrnod) o gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i dalu i ysgolion ryddhau partneriaid ysgolion/partneriaid y Cylch Trefol i gefnogi'r gweithgaredd recriwtio.

Atodiad 1.0: Y Gynulleidfa Darged a'r Prif Ffocws

Y Gynulleidfa Darged

I fanteisio i'r eithaf ar effaith y negeseuon a'r gefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer **grwpiau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol**, mae'r Brifysgol wedi nodi deg o ysgolion a cholegau blaenoriaeth fel y brif gynulleidfa darged ar gyfer darparu gweithgareddau recriwtio â ffocws.

Mae ysgolion a cholegau targed wedi'u nodi a'u blaenoriaethu ar sail ymgysylltiad hanesyddol â gweithgareddau'r Brifysgol, y sefydliadau bwydo a nodwyd i'r ddarpariaeth AGA Cynradd, a'u hagosatwydd at Gampws Casnewydd. Defnyddiwyd data am y boblogaeth o fyfyrwyr sydd ar gael o fewn adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn hefyd i nodi lleoliadau sydd â chyfran uchel o fyfyrwyr sydd wedi'i nodi'n fyfyrwyr du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Mae'r 10 prif ysgol a choleg a nodwyd yn cynnwys:

Sefydliadau Targed	% y boblogaeth o fyfyrwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd	70%
Ysgol Uwchradd Llysweri, Casnewydd	40%
Ysgol John Frost, Casnewydd	40%
Ysgol Uwchradd Caerdydd, Caerdydd	36%
Coleg Catholig Dewi Sant, Caerdydd	36%
Ysgol Uwchradd Cathays	34%
Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd	30%
Ysgol Olchfa, Abertawe	25%
Ysgol Bishop Gore, Abertawe	25%

Cyswllt ag Ysgolion a Cholegau

Bydd gweithgareddau i gefnogi'r broses o recriwtio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu datblygu'n bennaf drwy gyswllt ag ysgolion a cholegau, sydd wedi'i anelu at fyfyrwyr ym Mlynnyddoedd 10-13, a fydd yn cyd-fynd â phroses dderbyn UCAS.

Mae'r gweithgareddau a gynigir i ysgolion a cholegau yn amrywiol ac yn amrywio o ddsbarthiadau meistr ar y campws i ddyddiau blasu i drafodaethau a gweithdai mewn ysgolion a cholegau ac ar-lein.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau ar gyfer darparu gweithgareddau, a byddant yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r amcanion a ganlyn:

- Nodi ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu ag ysgolion
- Cynyddu cyfranogiad y myfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol presennol fel modelau rôl.
- Defnyddio'r cymorth sydd ar gael gan Gyngor y Gweithlu Addysg
- Sicrhau bod y gweithgaredd yn cyd-fynd â negeseuon allweddol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn cyd-fynd â gweithgaredd i ysgogi presenoldeb
- Darparu adnoddau sy'n canolbwyntio ar unigolion du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig i gynrychiolwyr y brifysgol
- Cynnig mynediad i gyfleusterau arbenigol nad ydynt ar gael mewn ysgolion

Bydd gweithgaredd cyswllt ysgolion a cholegau'n cael ei hyrwyddo drwy ein rhwydwaith presennol o Benaethiaid, Penaethiaid Chweched Dosbarth Ysgolion a Gyrfa Cymru.

Atodiad 1.0: Y Gynulleidfa Darged a'r Prif Ffocws

Ysgol Uwchradd Sant Teilo yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd	17%
---	-----

*Ffynhonnell: Ar sail adroddiad arolwg diweddaraf Estyn.

Bydd cyfle hefyd i ddarparu gohebiaeth bellach wedi'i thargedu yn e-gylchlythyrau misol y Brifysgol a ddosberthir i'r prif unigolion cyswllt (e.e. Penaethiaid Chweched Dosbarth Ysgolion, Cydlynwyr Ôl-16, Cydlynwyr Gyrfaedd).